WHC/2022/029

**CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 22 Tachwedd 2022

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: IECHYD CYHOEDDUS**

**Teitl: Rhaglen dal i fyny frys ar gyfer y brechlyn polio i blant o dan 5 oed**

**Dyddiad dod i ben / Adolygu** Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**
Arweinwyr Imiwneiddio, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Nyrsys ysgol, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Prif Weithredwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Nyrsio, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Clefydau y gellir eu Hatal drwy Frechu, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

**Er gwybodaeth i:**

Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Cyfarwyddwyr Cyllid Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, Byrddau Iechyd
Prif Fferyllwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyfarwyddwr Cynllunio, Uned Gyflawni'r GIG
Meddygon Teulu

**Anfonir gan:**
Syr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**
Y Gyfarwyddiaeth Frechu, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ. E-bost LlC.TimYRhaglenFrechu@llyw.cymru

Annwyl Gydweithwyr,

**Rhaglen dal i fyny frys ar gyfer y brechlyn polio i blant o dan 5 oed**

Ysgrifennais atoch ar 24 Hydref 2022 ynglŷn â'r rhaglen dal i fyny frys ar gyfer y brechlyn polio i blant o dan 5 oed, Rhaglen dal i fyny frys ar gyfer y brechlyn polio i blant o dan 5 oed (WHC/2022/027) | LLYW.CYMRU. Ers hynny, rwyf wedi dod yn ymwybodol o rai materion technegol yn ymwneud â'r rhaglen lanhau data sydd wedi achosi peth oedi i ddechrau'r rhaglen hon. Felly, rwy'n ysgrifennu eto i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer y rhaglen hyd **31 Mawrth 2023**.

Bydd y data gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar blant sydd wedi'u brechu'n rhannol neu heb gael brechiad o gwbl rhag Polio ar gael ar borth y meddygon teulu o'r wythnos 21 Tachwedd 2022. Mae'r data sydd wedi'u casglu yn cynnwys plant a oedd yn 6 mis oed neu'n hŷn o 1 Ionawr 2017, gyda'r data'n gyfredol ar 31 Hydref 2022. Bydd y data yn aros ar y porth tan ddiwedd y rhaglen dal i fyny, sef 31 Mawrth 2023. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cynhyrchu canllawiau a fydd yn cynorthwyo meddygon teulu a Byrddau Iechyd i ddefnyddio'r data; bydd y canllawiau ar gael ar borth y meddygon teulu, ynghyd â'r data. Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn darparu'r un data i adrannau iechyd plant y byrddau iechyd.

Hoffwn atgoffa'r byrddau iechyd i fonitro cynnydd er mwyn cyflawni'r rhaglen dal i fyny yn effeithiol ac o fewn y graddfeydd amser. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynorthwyo byrddau iechyd gyda hyn yn unol â'n Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol. Ar ôl cwblhau'r rhaglen dal i fyny, mae'n bwysig ein bod ni'n gwerthuso llwyddiannau a heriau'r rhaglen hon i ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir



**SYR FRANK ATHERTON**